Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rheoli Asedau: A yw'r Cyngor wedi gweithredu ar ein hargymhellion?

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Gorffennaf 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan Adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

Ciplun archwiliad 4
Ein canfyddiadau 6
Argymhellion 12
Atodiadau 14
1 Ynglŷn â'n gwaith 15

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau adolygiad dilynol a wnaeth fwrw golwg ar ba gamau gweithredu y mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor) wedi'u cymryd mewn ymateb i argymhellion a wnaethom yn 2023.

2 Yn 2023, fe wnaethom fwrw golwg ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau. Yr asedau y gwnaethom ganolbwyntio arnynt oedd ei swyddfeydd ac adeiladau yr oedd y Cyngor yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau i drigolion. Ein canfyddiad ar y cyfan o'r adolygiad yn 2023 oedd nad oes gan y Cyngor weledigaeth na chynllun ar hyn o bryd ar gyfer rheoli ei asedau na threfniadau monitro amserol a chynhwysfawr. Fe gyflwynom ni dri argymhelliad a oedd yn ymwneud â strategaeth, cynllunio a chyflawni, a llywodraethu a monitro.

3 Fe nododd y Cyngor wrth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio beth oedd yn mynd i'w wneud mewn ymateb i'r argymhellion. Dywedodd ei fod yn mynd i ymdrin â'r holl argymhellion erbyn mis Chwefror 2025. Yn yr adolygiad dilynol hwn, rydym wedi ystyried y camau gweithredu a gymerwyd gan y Cyngor a sut y mae unrhyw drefniadau newydd yn cael eu gwreiddio.

## Pam fod hyn yn bwysig

4 Mae adeiladau'r Cyngor yn rhan bwysig o sut y mae'n darparu ei wasanaethau. Mae adeiladau'n costio aran i'w rhedeg a'u cynnal a'u cadw. Mae hi'n bwysig bod y Cyngor yn deall yr hyn y mae arno ei eisiau o'i asedau yn y tymor hir, sut y mae'n eu defnyddio a'i fod yn sicrhau ei fod yn cael gwerth am arian o'i ddull.

5 Mae'r adolygiad dilynol hwn yn bwysig er mwyn canfod a yw'r Cyngor wedi cymryd camau gweithredu effeithiol i ymdrin â'r gwendidau a adnabuwyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2023.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

6 Nid yw'r Cyngor wedi cymryd camau gweithredu effeithiol i ymdrin â'r argymhellion yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2023. Canfuom fel a ganlyn:

- bod y Cyngor wedi diweddaru ei Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ond nad yw wedi sefydlu cynllun hirdymor ar gyfer ei asedau na'r deilliannau y mae arno eisiau eu cyflawni;
- nad oes gan y Cyngor oruchwyliaeth gorfforaethol effeithiol ar reoli asedau na dull cyson o gyflawni; ac
- nad yw'r Cyngor yn gwybod a yw'n dwyn gwerth am arian wrth reoli ei asedau.

7 Roedd y Cyngor o'r farn bod argymhellion 2023 wedi cael eu cwblhau a'u cau. Fodd bynnag, nid ymdriniwyd yn llawn â'r un ohonynt. Felly, rydym hefyd yn amlygu cyfleoedd i gryfhau goruchwyliaeth gorfforaethol y Cyngor ar gynnydd o ran rhoi argymhellion archwilio allanol ar waith.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

8 Rydym wedi gwneud pum argymhelliad. Mae pedwar argymhelliad yn canolbwyntio ar wella trefniadau rheoli asedau'r Cyngor trwy:

- ddangos ystyriaeth lawnach i'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
- cryfhau trefniadau llywodraethu a goruchwylio;
- egluro pa bwyllgor trosolwg a chraffu sydd â rheoli asedau yn ei rôl a'i gwmpas; ac
- asesu gwerth am arian.

9 Fe wnaethom bumed argymhelliad i'r Cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer cytuno pryd y mae argymhellion archwilio allanol wedi cael eu rhoi ar waith ac y gellir eu cau.

# Ein canfyddiadau

## Rheoli asedau

### Mae’r Cyngor wedi diweddaru ei Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ond nid yw wedi pennu cynllun hirdymor ar gyfer ei asedau na’r deilliannau y mae arno eisiau eu cyflawni

10 Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2023, fe wnaethom dri argymhelliad. Argymhelliad un oedd: ‘Wrth ddatblygu ei Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol newydd, dylai'r Cyngor wneud yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy’n ganolog i’w ystyriaethau.[1] Yn arbennig, dylai nodi ei weledigaeth hirdymor a'r deilliannau y mae arno eisiau eu cyflawni dros y tymor byr, canolig a hwy’. Ein canfyddiad ni yw mai dim ond yn rhannol y mae’r Cyngor wedi rhoi’r argymhelliad hwn ar waith.

11 Yn 2024, fe wnaeth y Cyngor ddiweddaru ei ddogfen bolisi gorfforaethol ar gyfer rheoli asedau. Mae tair adran i’r ddogfen bolisi:

- Cynllun Rheoli Asedau 2024-29;
- Strategaeth Rheoli Asedau 2024-27; a hefyd
- Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli Asedau – rhaglen dreigl dros dair blynedd (hyd at 2028 ar hyn o bryd).

At ddibenion yr adroddiad hwn byddwn yn cyfeirio at y ddogfen hon fel Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol (CAMP) y Cyngor.

[1] Mae’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy’n golygu gweithredu mewn modd sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

12 Mae’r CAMP wedi ystyried rhai elfennau o’r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, ond mae bylchau allweddol ynddo o hyd. Er enghraifft, nid yw’r CAMP yn nodi cynllun hirdymor ar gyfer asedau’r Cyngor. Dim ond pum mlynedd, sef 2024-2029, yw’r cyfnod a rychwentir. Ni ddangosir yn glir sut y mae’r cynllun yn integreiddio ac yn cyd-fynd â strategaethau eraill, ac ni wnaeth y Cyngor gynnwys rhanddeiliaid allweddol rhyw lawer wrth ddatblygu’r CAMP.

13 Mae’r CAMP yn nodi pa gamau gweithredu y mae’r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Mae gan y cynllun gweithredu golofn sy’n nodi’r amcan ar gyfer pob cam gweithredu, ond nid yw’n nodi’n glir sut y bydd deilliannau ac effaith yn cael eu hasesu.

14 Yr effaith am nad oes gan y Cyngor gynllun digon hirdymor ar gyfer ei asedau ac am nad yw wedi nodi’n glir pa ddeilliannau y mae arno eisiau eu cyflawni yw nad yw’n gallu wneud penderfyniadau strategol gwybodus ynglŷn â’i asedau.

## Nid oes gan y Cyngor oruchwyliaeth gorfforaethol effeithiol ar reoli asedau na dull cyson o gyflawni

15 Argymhelliad dau oedd: ‘Unwaith y mae’r Cyngor wedi cytuno ar ei Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol newydd, dylai ddatblygu’r trefniadau ategol i sicrhau bod ganddo ddigon o oruchwyliaeth gorfforaethol a dull cyson o gyflawni ei amcanion ar gyfer asedau ar draws y sefydliad’. Ein canfyddiad ni yw nad yw’r Cyngor wedi rhoi’r argymhelliad hwn ar waith.

16 Mae’r Cyngor wedi nodi ei drefniadau llywodraethu yn ei CAMP. Mae hyn yn cynnwys sefydlu Grŵp Rheoli Asedau Corfforaethol (CAMG). Grŵp o swyddogion yw hwn sy’n cynnwys cynrychiolwyr ar draws ei wasanaethau. O dan y CAMG mae’r strwythur llywodraethu’n dangos tri is-grŵp.

17 Nid yw’r trefniadau llywodraethu hyn ar waith yn llawn. Er bod y CAMP wedi cael ei fabwysiadu ym mis Ebrill 2024, ni chyfarfu’r CAMG tan fis Tachwedd 2025. Dim ond ddwywaith y mae wedi cwrdd. Oherwydd hyn, nid yw eto’n cyflawni’r swyddogaethau a nodir yn y CAMP yn llawn. Nid yw’r un o’r tri is-grŵp wedi cael ei sefydlu eto.

18 Mae'r CAMP hefyd yn nodi'r trefniadau adrodd canlynol:

- adroddiadau blynyddol ar berfformiad yn erbyn metrigau y cytunwyd arnynt;
- diweddariadau bob chwe mis ar y cynllun gweithredu;
- adroddiadau drwy eithriad yn chwarterol;
- adroddiad blynyddol ar berfformiad eiddo; ac
- adolygiad canol tymor o'r Cynllun Rheoli Asedau.

19 Nid yw'r un o'r adroddiadau hyn wedi cael ei gwblhau na'i gyflwyno i swyddogion na chynghorwyr yn unol â'r trefniadau llywodraethu a nodwyd. Yn 2019 y cafwyd yr adroddiad blynyddol diwethaf ar berfformiad eiddo. Effaith hyn yw nad oes gan y Cyngor drefniadau llywodraethu nac adrodd effeithiol i sicrhau goruchwyliaeth ar reoli asedau.

20 Ceir diffyg eglurder yn y Cyngor ynglŷn â pha bwyllgor trosolwg a chraffu sydd â rheoli asedau yn ei gylch gorchwyl a'i gwmpas. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn rhestru 'Rheoli Cyfleusterau ac Asedau' yng nghwmpas y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Perfformiad, Llywodraethu ac Adnoddau. Fodd bynnag, mae 'Rheoli Ystadau (heblaw tai/heblaw eiddo gweithredol)' ac 'Ystadau a Phrisio (gan gynnwys prynu a gwaredu tir/eiddo)' yng nghwmpas y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Diwylliant, Cysylltiad a Lle. Gallai'r dryswch ynglŷn â pha bwyllgor craffu sydd â rheoli asedau yn ei rôl a'i gwmpas rwystro goruchwyliaeth.

21 Nid yw'r Cyngor wedi datblygu dull cyson o reoli ei asedau. Mae'r CAMP yn nodi mai datblygu model landlord corfforaethol (CLM) fydd ei fecanwaith i gyflawni hyn.[2] Nid oes gan y Cyngor gyd-ddealltwriaeth am beth yw ei fodel cyfredol na'r hyn y mae arno ei eisiau ar gyfer y dyfodol. O dan y CAMP, roedd y model landlord corfforaethol i fod i gael ei fabwysiadu erbyn mis Medi 2025. Dim ond yn ddiweddar (mis Mawrth 2026) y cyflwynwyd opsiynau i'r Uwch Dîm Arwain. Megis dechrau y mae trafodaethau ac ar hyn o bryd nid oes ffordd ymlaen y cytunwyd arni. O ganlyniad, ceir diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau am reoli a chynnal a chadw adeiladau ar draws y Cyngor.

## Nid yw'r Cyngor yn gwybod a yw'n dwyn gwerth am arian wrth reoli ei asedau

22 Argymhelliad tri oedd: 'Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu deall y cynnydd y mae ei strategaeth a threfniadau rheoli asedau'n ei wneud a sut y mae'r rhain yn helpu i gyflawni ei Amcanion Llesiant, bydd angen iddo ei sicrhau ei hun bod ei drefniadau llywodraethu cyfredol yn ddigon i fonitro ei gynnydd yn effeithiol. Er mwyn sicrhau ei fod yn gallu deall yn well pa gynnydd y mae'n ei wneud mewn perthynas â'i asedau, ac er mwyn canfod a yw'n dwyn gwerth am arian, mae angen i'r Cyngor:

- ddatblygu a chyfleu adroddiadau monitro cynnydd rheolaidd;
- datblygu set ehangach o fesurau sy'n ymwneud ag asedau; a
- chwilio am gyfleoedd i'w feincnodi ei hun yn erbyn sefydliadau eraill.'

Ein canfyddiad ni yw bod y Cyngor heb roi'r argymhelliad hwn ar waith.

23 Nid yw'r Cyngor yn monitro'r modd y mae'n cyflawni ei CAMP. Nid yw elfennau allweddol o'r CAMP wedi cael eu cwblhau erbyn y graddfeydd amser a bennwyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

---

[2] Dull rheoli asedau sy'n canoli cyfrifoldeb am eiddo ar draws y sefydliad i ddarparu goruchwyliaeth gorfforaethol glir a dull cyson o reoli, cynnal a chadw a defnyddio asedau yw model landlord corfforaethol.

- strategaeth swyddfeydd corfforaethol (a oedd i fod i gael ei chwblhau erbyn mis Ebrill 2024);
- mabwysiadu strategaeth gwarediadau a phryniadau (a oedd i fod i ddigwydd erbyn mis Medi 2024);
- adolygu'r Strategaeth Trosglwyddo Asedau Cymunedol (a oedd i fod i ddigwydd erbyn mis Tachwedd 2024); a
- diweddaru'r strategaeth atgyweiriadau a chynnal a chadw (a oedd i fod i ddigwydd erbyn mis Medi 2025).

Mae'r camau gweithredu hyn i gyd yn dal heb eu cyflawni. Ni chyflwynwyd adroddiadau i arweinwyr strategol ar lithriant yn erbyn y cynllun gweithredu, gan wanhau goruchwyliaeth ac atebolrwydd.

24 Nid oes gan y Cyngor set o fesurau y cytunwyd arnynt y gellir eu defnyddio i asesu ei drefniadau rheoli asedau. Yn ei CAMP fe bennodd y Cyngor fis Medi 2024 fel y dyddiad ar gyfer sicrhau bod y rhain yn eu lle. Mae'r CAMP yn rhestru enghreifftiau o fesurau y gallai'r Cyngor eu defnyddio ond nid yw'r rhain wedi cael eu datblygu. Hefyd, nid yw'r Cyngor yn ei feincnodi ei hun o ran rheoli asedau yn erbyn sefydliadau eraill.

25 Mae'r Cyngor yn casglu peth data ar ei asedau. Caiff hwn ei ddal mewn cronfa ddata y mae'n anodd echdynnu data ohoni yn ôl y Cyngor. Mae hyn yn cyfyngu ar ei defnyddioldeb. Hefyd, nid yw peth o'r data'n gyfoes, er enghraifft yr wybodaeth am gyflwr ei asedau. Mae'r Cyngor wedi dechrau diweddaru'r wybodaeth hon, ond mae'n amcangyfrif y bydd yn cymryd o leiaf ddwy flynedd i gwblhau'r asesiad cychwynnol.

26 Effaith hyn yw nad yw'r Cyngor yn gwybod pa gynnydd y mae'n ei wneud gyda'i CAMP. Nid yw'n gwybod a yw ei strategaeth asedau'n helpu i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae hyn yn cynyddu'r risg bod ei ddull o reoli asedau'n adweithiol ac oportiwnistaidd yn hytrach nag yn strategol. O ganlyniad, ni all ei sicrhau ei hun ei fod yn dwyn gwerth am arian wrth reoli asedau.

# Monitro’r modd y rhoddir argymhellion archwilio ar waith

## Nid oes gan y Cyngor broses gadarn i gadarnhau pryd y mae argymhellion a gyflwynwyd gan archwilwyr allanol wedi cael eu rhoi ar waith ac y gellir eu cau

27 Nid oedd gan y Cyngor drefniadau digonol i’w sicrhau ei hun bod camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i argymhellion 2023 wedi cael eu cwblhau cyn iddynt gael eu cau.

28 Cyflwynir adroddiadau ar argymhellion a wnaed gan archwilwyr allanol ac ymateb bwriadedig y Cyngor i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Fe’u cynhwysir ar offeryn tracio argymhellion archwilio’r Cyngor. Mae’r offeryn tracio hwn yn cael ei ddiweddaru ac adroddiad arno’n cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob chwe mis. Roedd y rheolwyr gwasanaeth perthnasol o’r farn bod yr argymhellion o’r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2023 wedi cael eu cwblhau ac fe’u caewyd ar yr offeryn tracio, heb unrhyw ddiweddariadau pellach i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Ni chafodd y penderfyniad hwnnw ei oruchwylio na’i herio gan yr Uwch Dîm Arwain na’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

29 Mae’n bwysig bod gan y Cyngor drefniant cadarn a thryloyw ar gyfer cau argymhellion, i’w sicrhau ei hun y gweithredwyd yn effeithiol er mwyn ymdrin â hwy.

# Argymhellion

**A1** Dylai'r Cyngor sicrhau yn ei adolygiad canol tymor o'i CAMP y gall ddangos sut y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w drefniadau rheoli asedau corfforaethol (**paragraffau 12-14**).

**A2** Dylai'r Cyngor sicrhau bod y trefniadau adrodd, llywodraethu a goruchwylio y mae wedi cytuno arnynt yn ei CAMP yn gweithredu fel a fwriadwyd, i sicrhau goruchwyliaeth effeithiol ar gynnydd a deilliannau (**paragraffau 16-21**).

**A3** Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn egluro pa bwyllgor trosolwg a chraffu sydd â rheoli asedau yn ei rôl a'i gwmpas i sicrhau bod cyfrifoldeb am oruchwyliaeth graffu'n eglur (**paragraff 20**).

**A4** Dylai'r Cyngor ddatblygu dull i asesu gwerth am arian ei drefniadau rheoli asedau corfforaethol (**paragraffau 24-26**).

**A5** Er mwyn sicrhau goruchwyliaeth effeithiol ar ymateb y Cyngor i argymhellion archwilio allanol, dylai'r Cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer cytuno pryd y mae argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith ac y gellir eu cau (**paragraffau 27-29**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaeth yr archwiliad fwrw golwg ar gynnydd y Cyngor o ran rhoi'r argymhellion ar waith o adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru Llamu Ymlaen – Rheoli Asedau'n Strategol, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, 2023.

Fe wnaethom ni'r gwaith hwn rhwng mis Ebrill a mis Mai 2026.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe wnaethom ystyried a yw'r Cyngor wedi gweithredu'n effeithiol i ymdrin â'r argymhellion yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2023.

### Meini Prawf

Wrth ateb y cwestiwn hwn, fe wnaethom ystyried meini prawf archwilio. Goleuwyd y meini prawf hyn trwy ein gwybodaeth archwilio gronnus. Maent yn cwmpasu amseroldeb y camau gweithredu a gymerwyd a goruchwyliaeth arnynt, a'r trefniadau sydd gan y Cyngor i asesu a dangos ei gynnydd ei hun. Fe wnaethom hefyd ystyried sut y mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

## Dulliau

Fe ddefnyddiom ni'r dulliau canlynol i gasglu tystiolaeth:

- **Hunanasesiad** – Fe ofynnom ni i'r Cyngor gwblhau asesiad o'i gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2023.

- **Adolygu dogfennau** – Fe wnaethom archwilio dogfennau a ddarparwyd ar ein cyfer gan y Cyngor.
- **Cyfweliadau** – Fe gynhaliom ni gyfweliadau gyda staff a chynghorwyr a oedd yn rhan o oruchwylio a rheoli trefniadau rheoli asedau.

# 2 Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.